# Strwythur Strategol ac Ymgynghorol i Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau yng Nghymru

## - Papur Ymgynghorol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Welsh Assembly Government

# *Rhagair*

Fel Gweinidog Diwylliant cefais fy ngwahodd i lawer o wasanaethau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Yn ystod f'ymweliadau fe'm trawyd gan y parodrwydd i gofleidio newid a'r modd yr aed ati i gymryd mantais o'r cyfleoedd a gynigiwyd gan ddatblygiadau newydd.

Mae'r ddogfen drafod hon yn dynodi cychwyn proses i ddatblygu strwythur

strategol ac ymgynghorol ar gyfer y tri maes yng Nghymru. Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r ystod eang o fudiadau yn y sector, mae'n angenrheidiol i ni ddarganfod y mecanwaith gorau ar gyfer penderfynu ar bolisi a strategaeth a'i ledaenu ymhlith mwy na 500 o wasanaethau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau sydd yng Nghymru. Dylai unrhyw drefniadau newydd gyfuno effeithiolrwydd trefniannol ac effeithlonrwydd costau. Fy mwriad yw creu atebion hir-dymor a chyfleoedd fydd yn esgor ar welliannau mewn gwasanaethau i ddefnyddwyr.

Rwy'n dymuno gweld y sector yn cyfrannu'n llawn i'r weledigaeth a gyflwynais yn fy strategaeth ddiwylliannol 'Creative Future: Cymru Greadigol': cyfrannu i fywyd diwyllianol ac addysgiadol Cymru, a hybu a chryfhau yr ymwybyddiaeth Gymreig. Mae amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, gan eu bod wedi eu lleoli wrth galon ein cymunedau, mewn sefyllfa ardderchog i hybu cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes dysgu gydol oes a chynhwysedd gymdeithasol, a sicrhau y bydd diwylliant yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad ac adferiad y cymunedau yr ydym yn byw ynddynt.

Edrychaf ymlaen i dderbyn eich barn.

**Jenny Randerson AC**

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a’r Iaith Gymraeg**

***CYNNWYS***


Tudalen

1. **Cyflwyniad 1**
2. **Y prif gyrff o fewn y sector yng Nghymru a gynhelir 3**

   **neu a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**

   - Maes yr amgueddfa 3

- Maes y llyfrgell 5

- Maes archifau 8

   - Cymru’n Creu 9

3. **Resource: The Council for Museums, Archives and 10**

   **Libraries**

   - Swyddogaeth Resource 10

   - Gwaith Resource a’i gyflawniadau 11

   - Cyfrifoldebau daearyddol cyfredol Resource 12

4. **Y meini prawf i farnu’r trefniadau 14**
5. **Dewisiadau 18**

- Dim newid strwythurol 18
- Resource i Gymru wedi'i leoli o fewn Llywodraeth 19

Cynulliad Cymru

- Resource i Gymru wedi'i leoli o fewn Llywodraeth 20

Cynulliad Cymru ynghyd â Chyngor Ymgynghorol

- Goblygiadau 22
- Trafodaeth 22

3. **Ymgynghoriad 25**

- Atodaid 1 Aelodau o Grwp Ymgynghorol y Gweinidog 26

Diwylliant ar Resource

- Atodiad 2 Rhestr o Fyrfoddau 27
- Atodaid 3 Crynodeb o'r cwestiynau 28

## *Cyflwyniad*

1. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hybu addysg gydol oes, cydraddoldeb cymdeithasol, gwell ansawdd bywyd ac adferiad economaidd. Mae wedi ymwneud yn agos â'r sector amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau; ac mae'r Gweinidog Diwylliant yn ddiweddar wedi cyhoeddi gweledigaeth strategol ar gyfer diwylliant 'Creative Future: Cymru Greadigol'. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod fod amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, yn unigol ac ar y cyd, yn medru chwarae rhan ganolog ym mywyd diwylliannol ac addysgol Cymru. Gwelwyd rhai newidiadau eisoes yn y sector yng Nghymru, megis y ddarpariaeth ehangach o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGaCh) ar y lefel leol, a chyflwyno safonau ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus.
2. Ar yr un pryd, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf bu newidiadau

   arwyddocaol yn sector amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau Lloegr. Yn y gorffennol roedd nifer o gyrff yn cyflawni swyddogaethau o ran creu polisi a chynrychioli buddiannau'r sector, ac yr oedd rhai ohonynt yn ymwneud â Lloegr

yn unig; roedd gan eraill gyfrifoldebau dros y Deyrnas Gyfunol i gyd o safbwynt rhai neu'r cyfan o'u swyddogaethau, ac yn eu lle daeth Resource: The Council for Museums, Archives and Libraries (Resource). Mae Resource yn cael ei gynnal gan y Department for Culture, Media and Sport (DCMS). Mae gan Resource swyddogaethau amrywiol ac maent weithiau'n wahanol i rai'r cyrff oedd yn ei ragflaenu, o safbwynt materion yn ymwneud â'r Deyrnas Gyfunol ac eraill sy'n ymwneud â Lloegr yn unig.

3. Yn erbyn y cefndir hwn o gynnydd yng ngwaith y Cynulliad a'r newidiadau sydd wedi digwydd yn Lloegr, mae'r Gweinidog wedi penderfynu y byddai'n addas i ymgynghori ar drefniadau yn ymwneud â datblygu polisi a gosod y cyfeiriad strategol yng Nghymru ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r tri maes, ac yn ehangach na hynny. Mae'r ddogfen hon yn ceisio gwneud hynny. Yn gyntaf, mae'n disgrifio'r prif gyrff yn y sector yng Nghymru a gynhelir neu a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ail, mae'n esbonio'r newidiadau ddaeth yn sgil sefydlu Resource. Yn drydydd mae'n rhestru'r meini prawf y dylid barnu trefniadau Cymru yn eu herbyn. Yn bedwerydd, mae'n cynnig nifer o ddewisiadau y gellid eu mabwysiadu er mwyn creu fframwaith ar gyfer y sector.

4. Nid yw'n rhan o fwriad yr ymgynghoriad hwn i newid y drefn sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad gweithredol yn y sector, sef Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Er hynny, mae'n hanfodol i unrhyw drefn a sefydlir yn y dyfodol i gadw'r cysylltiadau anhepgorol gyda'r ddau sefydliad cenedlaethol hyn, ac am y rheswm hwnnw mae'r ddogfen hon yn cynnwys disgrifiad byr o'r ddau.
5. I bwrpas yr ymgynghoriad hwn, mae'r gweithgareddau sy'n disgyn o fewn cwmpas gwaith amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn cael eu galw'n *feysydd*, ond gyda'i gilydd cyfeirir atynt fel *sector*.

1.6 Paratowyd y ddogfen drafod hon mewn trafodaethau ag aelodau o Grwp Ymgynghorol y Gweinidog Diwylliant, pob un ohonynt yn cyfrannu fel unigolion, ac fe'u rhestrwyd yn Atodiad 1. Rhestrir y byrfoddau a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn Atodiad 2, a cheir crynodeb o'r cwestiynau yn Atodiad 3.

## *2. Y Prif Gyrff o Fewn y Sector yng Nghymru a Noddir neu a Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*

1. Bydd llawer o'r darllenwyr yn gyfarwydd â strwythur a chynnwys sector amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau Cymru, ac â'r sefydliadau o fewn eu

meysydd. Er hynny, efallai nad ydynt mor gyfarwydd â'r sefydliadau mewn meysydd eraill, ac ni fydd rhai darllenwyr, yn arbennig y rhai sydd hefyd yn ddefnyddwyr, yn gyfarwydd â'r sefyllfa ehangach. Felly, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r sefydliadau allweddol, fe ddarperir isod ddisgrifiad ohonynt a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

## Maes yr Amgueddfa

2. Mae tua **150 o amgueddfeydd** yng Nghymru (ac mae bron nawdeg ohonynt yn rhan o Gynllun Cofrestru Resource sy'n mesur perfformaid yn erbyn safonau proffesiynol cydnabyddedig). Maent yn amrywio o amgueddfeydd a ariennir gan awdurdodau lleol, i amgueddfeydd preifat neu amgueddfeydd ymddiriedolaethau annibynnol sy'n gweithredu heb arian cyhoeddus ac sy'n dibynnu'n gyfangwbl ar incwm o dâl mynediad ymwelwyr neu ar ddulliau eraill o godi incwm, i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, sy'n derbyn arian cyhoeddus.

### Cyngor Amgueddfeydd Cymru

2.3 Corff anstatudol yw Cyngor Amgueddfeydd Cymru (CAC) ac fe'i ffurfiwyd

yn 1967. Gall awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau annibynnol, prifysgolion, catrawdau (megis amgueddfeydd milwrol) a chyrff eraill sy'n cynnal amgueddfeydd er budd y cyhoedd, ymaelodi ag ef. Mae'n gwmni cyfyngedig dan warant, ac fe'i rheolir gan Bwyllgor Gwaith sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, amgueddfeydd ymddiriedolaethau annibynnol a gweithwyr proffesiynol yr amgueddfeydd. Prif ffynhonnell incwm y Cyngor yw Llywodraeth

Cynulliad Cymru sy'n darparu tua £622,000 yn flynyddol, ac fe ddosberthir

tua £220,000 fel grantiau i aelodau. Yn ogystal, mae tanysgrifiadau

aelodau ac incwm arall yn cyfrannu tua £36,000. Mae ganddo 10 aelod o staff.

4. Corff sy'n gweithredu ar ran ac ar y cyd â'i aelodau yw'r Cyngor, yn benodol yr amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol. Mae'n gweithio er mwyn gwella safonau ymhlith amgueddfeydd sy'n aelodau ohono, ac er mwyn hybu cadwraeth o'r dreftadaeth Gymreig, ac er mwyn hyrwyddo dibenion addysgol amgueddfeydd yng Nghymru. Ei ddibenion strategol yw:

- gwella safon gofal am gasgliadau amgueddfeydd a datblygu'r ystod o wasanaethau mae amgueddfeydd sy'n aelodau ohono yn eu cynnig i'r cyhoedd, a'u safon;

- hyrwyddo datblygiad sgiliau ymhlith y gweithlu o fewn yr amgueddfeydd (y staff cyflogedig a’r gwirfoddolwyr) a chynyddu’r ddarpariaeth o gynhaliaeth guradurol i amgueddfeydd;

- gwella’r wybodaeth am fodolaeth a chyflwr casgliadau amgueddfeydd yng Nghymru;

- darparu gorolwg o strategaeth y ddarpariaeth amgueddfaol yng Nghymru trwy gysylltu â’r aelodaeth, AOCC a darparwyr eraill er mwyn gallu dynodi blaenoriaethau ac anghenion;

- hyrwyddo’r defnydd a wneir o’r iaith Gymraeg mewn amgueddfeydd;

- cydweithredu â chyrff cenedlaethol eraill er mwyn gweithredu cynlluniau fyddai o fudd i amgueddfeydd yng Nghymru;

- gweithredu fel ffynhonnell gyngor ar faterion amgueddfaol i’r amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol i’r Gweinidog Diwylliant yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4. Mae amcanion strategol y Cyngor yn cael eu gweithredu drwy gyfrwng y swyddogaethau creiddiol canlynol:

- gweithredu fel adfocatiad ar ran buddiannau amgueddfeydd awdurdodau lleol ac amgueddfeydd ymddiriedolaethau annibynnol Cymru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol eraill a’r cyhoedd;

- darparu gorolwg strategol o ddarpariaeth amgueddfeydd yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy gomisiynu gwaith ymchwil a chasglu gwybodaeth berthnasol;

- gwella safonau o fewn amgueddfeydd sy’n aelodau, trwy ddarparu cyngor yn rhad ac am ddim ar safonau cenedlaethol ac arferion gorau, trwy ddarparu gwybodaeth dechnegol a thrwy asesu safonau proffesiynol;

- dosbarthu 35 y cant o’r gwariant mewn grantiau i amgueddfeydd sy’n aelodau yn ôl blaenoriaethau cydnabyddedig, a darparu mynediad i gynlluniau grant eraill gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd;

- hybu datblygiad sgiliau ymhlith gweithluoedd yr amgueddfeydd trwy ddarparu hyfforddiant, grantiau tuag at gostau hyfforddi, a thrwy wella strwythur yr hyfforddiant sy’n cynnal datblygiad proffesiynol parhaus.

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC)**

2.6 Sefydlwyd AOCC trwy Siarter Brenhinol yn 1907. Mae'n ceisio hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth eang am dreftadaeth a diwylliant Cymru a'u lle mewn datblygiad a hanes, a darparu amgueddfa genedlaethol sy'n ganolfan ardderchogrwydd cydwladol ar gyfer Cymru, a hybu ymchwil. Y mae'n Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n derbyn bron y cyfan o'i incwm blynyddol o tua £18 miliwn yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal â darparu ystorfa ar gyfer y Casgliad Cenedlaethol, mae AOCC yn cynnal wyth safle ar draws Cymru, megis Amgueddfa Werin Cymru yng Nghaerdydd a'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Mae'n cyflogi tua 500 o staff.

## Maes y Llyfrgell

2.7 Mae oddeutu 360 o fannau gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys llyfrgelloedd teithiol, sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Mae nifer o fathau eraill o lyfrgelloedd, gan gynnwys llyfrgelloedd ysgolion, llyfrgelloedd addysg uwch ac addysg bellach, a llyfrgelloedd arbennig, yn ogystal â Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Hysbysrwydd (Cymru) (CGLlaH(C))**

8. Mae CGLlaH(C) yn gorff statudol a grewyd dan Adran 2 y Public Libraries and Museums Act 1964. Mae'n cynghori'r Gweinidog Diwylliant ar faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth neu â'r defnydd o adnoddau llyfrgell ac ar unrhyw fater arall a gyfeirir i'w sylw gan y Gweinidog.
9. Swyddogaeth ffurfiol y Cyngor yw:

- cynghori'r Gweinidog ar faterion sy'n disgyn yn fanwl o fewn cylch eu cyfrifoldeb am lyfrgelloedd a gwasanaethau gwybodaeth ac unrhyw fater arall sy'n gallu dylanwadu ar y pethau hynny. Gallai hynny gynnwys rhoi cyngor ar ddatblygiad polisïau cenedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd a gwasanaethau gwybodaeth ac ar hybu cydweithrediad rhwng gwasanaethau;

- cychwyn archwiliadau a hybu trafodaeth ar unrhyw agwedd ar wasanaethau llyfrgell a gwybodaeth sydd, yn eu barn hwy, yn haeddu ymchwil manwl, a thaenu'r darganfyddiadau.

8. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am benodi Cadeirydd ac hyd at wyth aelod, fel arfer am gyfnod o dair blynedd. Fe benodir yr aelodau fel unigolion, ond maent yn bras gynrychioli pob math o wasanaeth llyfrgell a gwybodaeth. Mae'r prif Cyngor yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, ond mae'r gweithgorau yn cyfarfod yn amlach. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cefnogaeth ariannol o

£30,000 y flwyddyn i hybu gwaith y Cyngor a'i weithgorau, i gynnal cyfarfodydd, i gyhoeddi dogfennau, ac i gefnogi llyfrgelloedd a gwasanaethau gwybodaeth trwy gynnal gwaith ymchwil a datblygol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn darparu Ysgrifennydd rhan-amser i'r Cyngor, ond nid oes ganddo unrhyw staff arall.

9. Mae CGLlaH(C) yn cynnig cyngor ar ystod eang o destunau.

Sefydlodd weithgor i hwyluso gwaith cynllunio a gosod Rhwydwaith TGaCh y Bobl, a ariannwyd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd, ymhob gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n cefnogi gwaith ar safonau ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus, ac yn archwilio'r modd y gellid hybu agendau dysgu gydol oes a chynhwysedd gymdeithasol. Mae CGLlaH(C) ar hyn o bryd yn ariannu ymchwil i faes rhannu adnoddau rhwng llyfrgelloedd cyhoeddus a llyfrgelloedd sefydliadau addysg uwch a phellach. Er mai ym maes llyfrgelloedd cyhoeddus yn unig y mae gan y Cyngor ddyletswyddau statudol, credir y dylid parhau â'r gwaith gyda pob math o lyfrgell wrth gynnig cyngor a chefnogaeth.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

10. Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy Siarter Brenhinol yn 1907. Swyddogaeth y Llyfrgell yn ôl ei Gynllun Gweithredu yw 'casglu, diogelu a rhoi mynediad i wybodaeth a gofnodwyd, ym mha ffurf bynnag, gan roi pwyslais arbennig ar ddogfennau yn ymwneud â Chymru, er budd pawb sy'n gwenud gwaith ymchwil neu ddysgedig, neu sydd ag anghenion gwybodaeth eraill'. Y mae'n llyfrgell gyhoeddus, a gall unrhyw oedolyn ddefnyddio'r casgliadau am ddim i ddibenion cyfeirio. Mae'r Llyfrgell yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac mae'n derbyn tua £10 miliwn yn flynyddol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cyflogi tua 230 o staff ac fe'i lleolir yn Aberystwyth. Yn ogystal â bod yn llyfrgell fwyaf Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n cynnal y casgliad helaethaf o archifau Cymreig, ac y mae hefyd yn cynnal casgliad sylweddol o ddarluniau, mapiau, deunydd sain a delweddau symudol.
11. Mae'r Llyfrgellydd yn aelod o GGLlaH(C) ac mae'r Llyfrgell am ei bod yn sefydliad mor fawr a phwysig yng Nghymru, yn chwarae rhan allweddol wrth arwain, cyd-drefnu a chefnogi datblygiad llyfrgelloedd ac archifau. Mae'r swyddogaeth hon yn un cwbl angenrheidiol mewn gwlad y mae ei gwasanaethau llyfrgell ac archifol yn tueddu bod yn rhai bychain a gwasgaredig.

## Maes Archifau

12. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnal gwasanaeth archifau, naill ai'n annibynnol neu ar y cyd ag awdurdod arall. Fel y cyfryw mae **13 gwasanaeth archifau lleol** yng Nghymru. Y gwasanaethau hyn sy'n gofalu am ddogfennau hanesyddol yn ymwneud â gweinyddiaeth o'r canol oesoedd hyd at

heddiw. Maent hefyd yn casglu ystod eang o gofnodion a gynhyrchwyd gan gyrff preifat ac unigolion. Y Llyfrgell Genedlaethol sy'n cadw'r casgliad mwyaf. Cedwir gasgliadau arbennig gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru , a Phrifysgolion Bangor, Llanbedr Pont Steffan ac Abertawe. Mae Prifysgolion Aberystwyth a Bangor yn darparu hyfforddiant ôl-raddedig ar gyfer archifwyr proffesiynol.

2.15 **Nid oes corff sy'n cael ei noddi na'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn.**

### Cyngor Archifau Cymru

2.16 Er hynny, ffurfiwyd Cyngor Archifau Cymru yn 1995, ac mae'n cynnull at ei gilydd rhyw 22 sefydliad a chorff sy'n ymwneud â gweinyddu archifau yng Nghymru. Mae'n dymuno darparu fforwm reolaidd er mwyn cyfnewid syniadau, dylanwadu ar bolisi yn ymwneud ag archifau yng Nghymru, codi ymwybyddiaeth am faterion sy'n destun pryder yn y maes, a darparu ffocws i waith ar y cyd. Mae pob awdurdod lleol yn aelod ohono, ac hefyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a sefydliadau cyfansoddiadol Prifysgol Cymru. Nid oes gan Gyngor Archifau Cymru unrhyw staff ac fe'i cynhelir gan danysgrifiadau oddi wrth yr aelodau, ac mae hynny'n talu am fân dreuliau.

## Cymru'n Creu

17. Sefydlwyd Cymru'n Creu gan y Gweinidog Diwylliant ym mis Chwefror 2001. Fforwm anstatudol ydyw, yn cynnwys cadeiryddion neu brif weithredwyr pob corff diwylliannol sy'n Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yng Nghymru, ynghyd â darlledwyr, y Cyngor Prydeinig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill, gan gynnwys y cyrff y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol yn yr adran hon. Y bwriad yw darparu fforwm ar gyfer ystod o gyrff diwylliannol er mwyn trafod cyfleon a phroblemau; cefnogi gweithgarwch ar ran y bartneriaeth; a darparu cyfrwng gwybodaeth agored rhwng y cyrff perthnasol a'r Gweinidog.
18. Mae'n cyfarfod yn gyson, ac yn darparu cyfle i bob corff i ystyried y modd y gellid uniaethu ei gynlluniau â chynlluniau un neu fwy o'r cyrff eraill sy'n perthyn i'r grwp, er mwyn sicrhau cydweithrediad cryfach i gefnogi meysydd megis dysgu gydol oes, datblygiadau diwylliannol, TGaCh a thwristiaeth. Eisoes fe sefydlwyd nifer o weithgorau, gan gynnwys grwp dan arweiniad Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n edrych ar y modd y gallai TGaCh ddarparu mynediad hwylusach ac ehangach i ddiwylliant Cymru.

# *3. Resource: the Council for Museums, Archives and Libraries*

## Swyddogaeth Resource

3.1 Ym mis Ebrill 2000 sefydlwyd Resource gan DCMS. Disodlwyd y Museums and Galleries Commission (oedd yn weithredol dros y Deyrnas Gyfunol), y Library and Information Commission (oedd yn weithredol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond bu cynrychiolaeth o Gymru ar rai o'i bwyllgorau), ac fe gwmpaswyd archifau yn ogystal.

3.2 Mae Resource yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol, wedi ei ariannu gan DCMS trwy gyfrwng cytundeb blynyddol sy'n manylu ar yr hyn y mae'r llywodraeth yn ei ofyn gan y corff. Rhoddir arweiniad strategol iddo gan Gadeirydd annibynnol a Bwrdd o Reolwyr. Fe benodir un cynrychiolydd o Gymru i aelodaeth y Bwrdd hwnnw. Mae datganiad Resource am yr hyn yw ei weledigaeth yn nodi fod 'museums, archives and libraries belong at the very heart of people's lives; contributing to their enjoyment and inspiration, cultural values, learning potential, economic prosperity and social equity'. Mae'n cyflogi tua 65 o staff yn Llundain ac mae ganddo gyllideb o tua £23.5 miliwn.

3.3 Mae Resource yn ceisio darparu'r cyfeiriad strategol sy'n angenrheidiol i sicrhau y bydd y casgliadau a'r gwasanaethau y mae'r sector yn eu cynnig yn medru gwella bywydau pawb a dylanwadu arnynt. Mae'n hyrwyddo mynediad i adnoddau diwylliannol ac addysgiadol sydd o ddiddordeb i bobl a'u anghenion. Tra'i fod ar y naill law yn gweithredu fel corff cyhoeddus ac yn darparu cyngor i'r llywodraeth yn ôl y galw, mae Resource hefyd yn gweithredu fel adfocatiad annibynnol ar ran y sector.

4. Mae Resource yn cydnabod fod y materion yn mae'n eu trin yn berthnasol i ystod o sectorau, adrannau ac asiantaethau, ac mae'n ceisio gweithredu mewn partneriaeth â'r rhai sydd o fewn y sector ynghyd ag eraill mewn meysydd eraill megis addysg, y cyfryngau a'r celfyddydau.
5. Mae nifer o themau cyffredin yn cynnal gwaith Resource:

- sicrhau cydbwysedd rhwng y ffocws ar raglen waith ar gyfer y sector yn ei chyfanrwydd a gwaith penodol ar gyfer y meysydd unigol;

- cydnabod yn amlwg bwysigrwydd materion yn ymwneud â stiwardiaeth, gan gwmpasu gwarchodaeth, gofal a datblygu casgliadau;

- sicrhau fod swyddogaeth archifau yn cael ei chydnabod, gan ddod a llyfrgelloedd ac archifau ac amgueddfeyd at ei gilydd;

- pwysleisio annibyniaeth oddi wrth lywodraeth, yn arbennig wrth hyrwyddo buddiannau'r sector;

- datblygu cynllun gwaith TGaCh sydd yn canolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau;

## Gwaith Resource a'r hyn a gyflawnwyd

4. Yn ystod 2001/02 mae'r hyn a gyflawnwyd gan Resource yn cynnwys y canlynol. Mae Resource wedi:

- darparu Cynlluniau Gwaith ar gyfer nifer o feysydd megis archifau, llyfrgelloedd cyhoeddus, TGaCh a Datblygu Cymunedau Dysgu;

- gosod cynllun Rhwydwaith TGaCh y Bobl mewn llyfrgelloedd cyhoeddus;

- adolygu Cynllun Cofrestru Amgueddfeydd;

- adolygu Cynllun Dynodi ar gyfer Amgueddfeydd, gan gynnig ei ymestyn i gwmpasu'r holl sector;

- adolygu anghenion ystadegol y sector;

- datblygu fframwaith Dysgu a Mynediad;

- cynhyrchu adroddiad sylweddol ar ‘Renaissance in the Regions: The Future of England’s Regional Museums’;

- trefnu Cynllun Sharing Museums Skills;

- hyrwyddo gweithgaredd ar y lefel ranbarthol trwy ddarparu cyllid newydd, er enghraifft er mwyn creu swyddog i gefnogi addysg ym mhob un o’r rhanbarthau;

- gosod yr agenda ranbarthol yn Lloegr, ac wedi cynllunio ar gyfer Asiantaethau Sengl ar gyfer Rhanbarthau (Single Regional Agencies).

4. Yr Asiantaethau Sengl ar gyfer Rhanbarthau (fydd yn cyflogi oddeutu 135 o staff) fydd yr asiantaethau a ddynodir gan Resource i hyrwyddo, arwain, cynnal a chynrychioli amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn rhanbarthau Lloegr, a bydd yn eu galluogi i ddarparu’r gwasanaethau gorau bosib ar gyfer y cyhoedd. Byddant yn gweithredu ar ran Resource gyda phartneriaid cenedlaethol, lleol a rhanbarthol i ddarparu cydlyniaeth ar draws y tri maes ac i alluogi amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i gyflawni eu potensial o ran darparu ar gyfer anghenion y cyhoedd. Byddant yn darparu arweiniad strategol a chyngor, ac yn hyrwyddo gweithgarwch ar y lefel ranbarthol. Bwriadau hir-dymor yr Asiantaethau hyn yw ceisio sicrhau y bydd amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn fwy hygyrch i fwy o bobl, ac yn cael eu gwerthfawrogi yn fwy, a sicrhau y byddant yn gynaliadwy o ran adnoddau. Bydd Asiantaeth o’r fath yn cael ei sefydlu ymhob rhanbarth yn Lloegr erbyn 2004.

## Cyfrifoldebau daearyddol cyfredol Resource

5. Mae Resource a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y broses o gytuno concordat sy’n dynodi swyddogaethau a chyfrifoldebau Resource yng Nghymru. Mae’r concordat drafft a gytunwyd gan y Gweinidog Diwylliant i’w weld ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, sef www.cymru.gov.uk . Y mae eto i’w gadarnhau gan Fwrdd Resource. Mae’n dynodi bwriadau cyffredin, ac yn gosod egwyddorion sylfaenol ar gyfer gweithredu. Mae’r meysydd gwaith sy’n cael eu hyrwyddo gan Resource ar draws y Deyrnas Gyfunol yn gallu derbyn mewnbwn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a’r meysydd Cymreig, felly mae’n bosibl i Gymru gyfrannu i’r gwaith o ddatblygu polisïau. Bydd yn rhaid diwygio’r concordat terfynol yng ngoleuni unrhyw drefniadau newydd fydd yn cael eu sefydlu yn dilyn

yr ymgynghoriad hwn.

## *4 Y Meini Prawf i Farnu'r Trefniadau*

4.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnig nifer o ddewisiadau ar gyfer y dyfodol. Wrth gynnig rhain mae'r Gweinidog Diwylliant yn dymuno arwain a chyfrannu i'r drafodaeth ehangach am y mecanwaith effeithiol y byddai ei angen er mwyn llunio a thaenu polisi a gosod cyfeiriad strategol ar gyfer meysydd amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn unigol, ac ar gyfer y sector yn ei chyfanrwydd. Er hynny, mae'r Gweinidog yn glir yn ei meddwl nad oes angen newid er ei fwyn ei hun. Er mwyn i newid ddigwydd bydd angen gweld achos clir ac amlwg drosto, fel y gellir cael mwy o effeithlonrwydd gweithredol a gwerth am arian; a bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir ystyried yr adnoddau fydd ar gael.

2. Mynegwyd peth anfodlonrwydd ynglyn â'r strwythurau sy'n bodoli yng Nghymru, lle mae strwythurau ar gael; nodwyd yn arbennig bod y rhan fwyaf ohonynt yn fregus, yn ddiffygiol o ran parhad ac yn ddiffygiol o safbwynt y nifer o staff ac adnoddau sydd ar gael i gynnal gweithgaredd a chyflawni polisïau fyddai'n esgor ar welliannau mewn gwasanaethau i ddefnyddwyr. Byddai'n rhaid i unrhyw strwythur ar gyfer Cymru:

- fod yn ymwybodol iawn o anghenion defnyddwyr;
- gael digon o staff ac adnoddau eraill i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac effeithlon;

- osgoi dyblygu gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni gan unrhyw gorff arall;

- ennyn parch ac ymddiriedaeth y gymuned y byddai'n cael ei sefydlu i'w gwasanaethu, a'r llywodraeth fyddai'n ei gynnal;

- ddangos canlyniadau a gweithredu strategaeth yn effeithiol yn ddiymdroi.

2. Er mwyn rhoi cymorth gyda'r gwaith o werthuso'r dewisiadau, ac er mwyn bod yn gwbl glir ynglyn â'r meini prawf y bydd y Gweinidog yn eu defnyddio i wneud ei phenderfyniad terfynol, fe roddir disgrifiad o'r meini prawf bras yn erbyn y dewisiadau a osodir isod, ynghyd ag unrhyw ddewis arall a argymhellir yn ystod yr ymgynghoriad, er mwyn eu gwerthuso. Wrth ystyried eu safbwyntiau dylai pawb sy'n ymateb i'r ymgynghoriad dalu sylw manwl i'r meini prawf hyn.
3. Dylai'r trefniadau newydd:

- fedru darparu cyngor ar bolisi sy'n gyngor awdurdodol ac o'r safon uchaf i'r Gweinidog Diwylliant fel y mae'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol berthnasol i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau;

- ddarparu mynediad i wasanaethau cynnal a chyngor o safon uchel ar gyfer y 520 o amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru;

- ddarparu rhaglen waith a strategaeth, gan ddynodi, hyrwyddo a thaenu polisïau sy'n addas ar gyfer Cymru;

- ddarparu sianelau cyfathrebu effeithiol rhwng Resource, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau;

- greu a chynnal agenda sy'n wirioneddol berthnasol ar draws y meysydd, ac agenda ar gyfer y meysydd yn unigol hefyd;

- dderbyn mewnbwn addas oddi wrth gyrff a sefydliadau eraill, megis awdurdodau lleol;

- gynnal ac ymestyn cysylltiadau a phartneriaethau gyda sefydliadau a chyrff a sectorau perthnasol eraill yng Nghymru, y DG a thu hwnt; yn arbennig dylid meithrin y rhai hynny fyddai'n caniatáu i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau i weithredu ar y cyd mewn consortia;

- ddarparu strwythurau o'r maintioli addas am gost y gellid ei hystyried yn rhesymol ac mewn perthynas â maint y sector yn ei chyfanrwydd.

4.5 Mae CAC ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau adfocatiaeth ar gyfer yr amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol, ac mae Resource hefyd yn darparu gwasanaethau adfocatiaeth ar gyfer sector honno. Er hynny, nid yw adfocatiaeth ar ran y sector ymhlith y

swyddogaethau a restrwyd ymhlith y meini prawf uchod. Y rheswm am hynny yw y byddai'n anodd i un corff i weithredu fel adfocatiad ar gyfer y sector ar bob achlysur, tra ar yr un pryd yn darparu cyngor diduedd i'r llywodraeth. Yn ymarferol y mae'n bur debygol y byddai'r polisi a'r cyngor yn cyfateb i'r hyn fyddai wrth fodd y sector, ond ni ellid bod yn sicr y byddai hynny'n wir bob amser. Gallai'r sector sefydlu ei gyrff ei hunan i gyflawni gwaith adfocatiaeth, a gweithio'n agos gydag unrhyw gorff newydd y gellid ei sefydlu fel canlyniad i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried ymhellach yn Adran 5 yng nghyd-destun Dewis 3.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno mai â'r meini prawf a restrwyd ym Mharagraff 4.4 y dylid barnu unrhyw drefniadau?**

6. Mae llawer iawn o dir sy'n gyffredin rhwng amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Mae'r sector yn cwmpasu ystod eang iawn o gyrff a sefydliadau o safbwynt eu maint, eu gweithgarwch a'u natur, ond maent i gyd yn darparu casgliadau i'w defnyddio gan y cyhoedd. Mae gofal am y casgliadau, a'r modd y cynhelir hwy ac yr ychwanegir atynt, yn sylfaenol i bob un. Mae gan lawer ohonynt berthynas â llywodraeth leol, a rhan bwysig i'w chwarae wrth geisio cyflawni amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyd-destun dysgu gydol oes a gwrthweithio anfanteision cymdeithasol. Mae ganddynt rol ganolog hefyd wrth gynnal a datblygu llesiant diwylliannol, addysgol ac economaidd. At hynny, gall materion yn ymwneud â defnyddio a datblygu TGaCh, hyfforddiant a hawlfraint, gael eu trafod mewn dull integreiddiedig.
7. Mae'r tri maes yng Nghymru eisoes wedi dechrau datblygu partneriaethau gyda'i gilydd ar lefel leol a chenedlaethol, ac wedi cydweithio ar brosiectau penodol, gan ychwanegu at eu dylanwad, a denu adnoddau ariannol sylweddol ychwanegol yn ogystal. Mae 'Casglu'r Tlysau' yn brosiect cywaith sydd yn bwriadu digido dros 23,000 o ddelweddau diwylliant a threftadaeth a'u crynhoi at ei gilydd i un wefan. Y thema yw 'Cymuned', a bydd y wefan yn cynnwys delweddau a thestun sydd yn eu ffurf ffisegol, wedi'u gwasgaru mewn llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau ledled Cymru. Mae'r tri maes hefyd wedi eu cynrychioli ar Grwp TGaCh Cymru'n Creu sy'n datblygu Culture Cymru Ar-Lein, fframwaith strategol a rhaglen o weithgarwch ar gyfer y defnydd o DGaCh yn y sector diwylliant Cymreig. At hynny, mae'r hyn a gyflawnwyd gan Gonsortiwm Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Cymru (CGLlGC) (CWLIS) yn dangos fod partneriaethau ar draws y sector yn gallu gweithio'n ymarferol, ac yn amlwg yn medru ychwanegu gwerth i'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau i ddefnyddwyr.
8. Mewn unrhyw drefn, byddai'n gwbl angenrheidiol i sicrhau fod statws cyfartal i'r tri maes. Byddai'n bwysig cydnabod hefyd fod y gwaith ar lefel sector yn gytbwys â'r gwaith sy'n berthnasol i anghenion y meysydd unigol.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu y byddai meysydd amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn cael eu gwasanaethu'n well gan un corff strategol ac ymgynghorol?**

## *5. Dewisiadau*

5.1 Mae nifer o ddewisiadau posib ar gyfer y dyfodol fyddai'n sicrhau fod gan y Gweinidog Diwylliant fynediad hwylus i gyngor pwrpasol y gellid ei ddefnyddio i greu polisïau; yn sicrhau bod modd gweithredu'r polisïau hynny; ac yn sicrhau bod y meysydd yng Nghymru yn cael eu gwasanaethu'n iawn. Nid yw'r dewisiadau a gynigir yma yn rhai diffiniol, ac nid dyma'r unig ddewisiadau y gellid eu cynnig.

### Dewis 1: Dim newid strwythurol

2. Fel ag a nodwyd yn Adran 3 uchod, mae Resource a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y broses o gytuno concordat fyddai'n dynodi swyddogaethau a chyfrifoldebau Resource yng Nghymru. **Mae nifer o agweddau ar raglen waith Resource yn cael eu gweithredu ar sail y Deyrnas Gyfunol, a byddai hynny'n parhau o dan y dewis hwn.** Byddai darparu rhyw gymaint o fewnbwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac oddi wrth asiantaethau pob maes ar wahan (CAC, CGLlaH(C), a Chyngor Archifau Cymru) hefyd yn parhau. Byddai'r Gweinidog Diwylliant yn parhau i osod y fframwaith polisi yn gyffredinol ar gyfer CAC a CGLlaH(C), ac yn darparu cyllid.
3. Mae manteision ac anfanteision i'r dewis hwn, fel a ganlyn:

<u>Manteision</u>

- Cost isel, byddai cyfanswm y costau tua £652,000 y flwyddyn - £622,000 ar gyfer CAC a'i 10 o staff a £30,000 ar gyfer CGLlaH(C);

- Ni fyddai'n dyblygu gwaith Resource;

- Byddai gwaith yn parhau ar draws y meysydd fel ar hyn o bryd, megis y prosiect TGaCh 'Casglu'r Tlysau' a Culture Cymru Ar-Lein.

-

-

Anfanteision

Nid yw’n cwrdd ag unrhyw un o’r meini prawf a nodwyd yn Adran 4.4 uchod:

- Cyngor tameidiog ac achlysurol iawn fyddai i’r Gweinidog;
- Cymorth tameidiog ac achlysurol iawn fyddai i’r sector;
- Diffyg arweinydd strategol i’r sector;
- Dim llais ar gyfer archifau a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- Sianelau cyfathrebu cymhleth rhwng Resource, Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r tri maes;
- Byddai’n anodd i’r tri maes weld perthynas rhyngddynt a Resource pan fyddai’r agenda ar draws y meysydd;
- Byddai gwaith ar draws y meysydd yn anodd, ac yn gyfyngedig i brosiectau unigol;
- Byddai Cymru yn cael ei dominyddu gan Resource ac agenda ar gyfer Lloegr;
- Byddai’n anodd datblygu polisïau yn benodol ar gyfer Cymru;
- Ni cheid mewnbwn yn uniongyrchol oddi wrth awdurdodau lleol;
- Byddai cysylltiadau â chyrff diwylliannol eraill yng Nghymru, Y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt, yn rhai rhy niferus a thameidiog;
- Mae’r cyrff yng Nghymru yn rhy fychan i gyflawni’r dyletswyddau sy’n angenrheidiol;
- Ni ellid sicrhau gwerth am arian gan fod y drefn yn rhy fregus i fod yn effeithiol ymhob agwedd.

## Dewis 2: Resource ar gyfer Cymru wedi’i leoli o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. O dan y dewis hwn byddai **strwythur newydd ar gyfer Cymru, yn debyg i Resource, ac a fyddai’n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.** Byddai’n cwmpasu swyddogaethau CAC y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu amdanynt ar hyn o bryd, swyddogaethau CGLlaH(C), ac yn cynnwys yr holl

sector, gan gynnwys archifau. Byddai'n annibynnol ar Resource a DCMS, ond gallai alw ar arbenigedd Resource pan fyddai hynny'n gymwys. Byddai'n datblygu neu'n addasu polisïau priodol ar gyfer Cymru. Byddai'r uned wedi ei staffio'n gymwys ag arbenigwyr o'r sector. Byddai'n uniongyrchol gyfrifol i'r Gweinidog Diwylliant.

Manteision

- Mae'n cwrdd â'r holl feini prawf;

- Fel rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, byddai costau'n is gan y byddai gwasanaethau atodol megis cyllid, swyddfeydd, personel, cefnogaeth TGaCh a chyngor cyfreithiol, yn cael eu darparu gan y Cynulliad, ac felly byddai arbedion maint yn deillio o fod yn rhan o gorff mwy;

- Byddai'r drefn yn darparu'r cysylltiad cryfaf posib rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector, gan na fyddai unrhyw gorff arall yn dod rhyngddynt.

Anfanteision

- Efallai y byddai'n rhaid ariannu tua 20 o staff fyddai'n cyflawni'r swyddogaethau strategol a gweithredol ar gyfer y tri maes – cynnydd net o 10 ar y nifer a gyflogir gan CAC ar hyn o bryd. At hynny, byddai'n rhaid trefnu'r gallu i gynnig grantiau a darparu cyllid y byddai ei angen er mwyn cynnal prosiectau a gweithredu polisïau penodol Gymreig;

- Ni fyddai unrhyw fewnbwn ffurfiol i'r broses o greu polisi yn dod o'r tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Dewis 3: Resource ar gyfer Cymru wedi'i leoli o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â Chyngor Ymgynghorol

5.5 **Fel yn Dewis 2, byddai strwythur newydd yng Nghymru, yn debyg i Resource, ac a fyddai'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.** Byddai'n cwmpasu swyddogaethau CAC y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu amdanynt ar hyn o bryd, swyddogaethau CGLlaH (C), ac yn cynnwys yr holl sector, gan gynnwys archifau. Byddai'n annibynnol ar Resource a DCMS, ond gallai alw ar arbenigedd Resource pan fyddai hynny'n gymwys. Byddai'n datblygu neu'n addasu polisïau penodol ar gyfer Cymru. Byddai'r uned wedi'i staffio'n gymwys ag arbenigwyr o'r sector. Byddai'n uniongyrchol gyfrifol i'r Gweinidog Diwylliant. **Yn ychwanegol, byddai Cyngor Ymgynghorol o tua deg aelod wedi'u penodi gan y Gweinidog Diwylliant. Byddai'r Gweinidog yn cadeirio'r Cyngor.** Byddai hyn yn darparu mewnbwn ffurfiol i'r broses o greu polisi o'r tua allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Manteision

- Byddai'n cwrdd â'r holl feini prawf.

- Fel rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru byddai costau'n is gan y byddai gwasanaethau atodol megis cyllid, swyddfeydd, personel, cefnogaeth TGaCh a chyngor cyfreithiol, yn cael eu darparu gan y Cynulliad a byddai arbedion maint yn deillio o fod yn rhan o gorff mwy.

- Byddai'n darparu'r cyswllt cryfaf posib rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector, gan na fyddai unrhyw gorff arall yn dod rhyngddynt.

- Byddai Cyngor Ymgynghorol yn darparu'r mecanwaith ar gyfer mewnbwn ffurfiol i'r broses o greu polisi o'r tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Anfanteision

- Byddai angen cyllid ar gyfer tua 20 o staff fyddai'n cyflawni dyletswyddau strategol a gweithredol ar gyfer y tri maes – cynnydd net o 10 ar staff presennol CAC. At hynny, byddai'n rhaid trefnu'r gallu i gynnig grantiau a darparu cyllid y byddai ei angen er mwyn cynnal prosiectau a gweithredu polisïau penodol Gymreig.

## Goblygiadau

6. Dan **Dewis 2 a 3** byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn peidio ag ariannu CAC. Byddai'n rhaid ystyried cyflogaeth ei staff bresennol a'r anghenion o safbwynt prydles yr adeilad yng Nghaerdydd. Pe byddai unrhyw un o swyddogaethau staff presennol CAC yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru, byddai'n rhaid cael cyngor cyfreithiol yn fuan parthed y Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981, a fyddai'n rhoi hawliau arbennig i staff allai drosglwyddo ac yn amddiffyn eu cyflogaeth. Yng nghyd-destun y ddau ddewis hyn, byddai'n rhaid gwneud penderfyniad ynglyn â lle y byddid yn lleoli'r uned newydd, a byddai'n rhaid i'r penderfyniad ystyried Arolwg Lleoliadau y Cabinet. Mae'r Arolwg hwnnw yn ystyried cynyddu'r gyfran o staff Llywodraeth y

Cynulliad sydd wedi ei leoli y tu allan i Gaerdydd. Byddai gweithredu **Dewis 2 neu Ddewis 3** hefyd yn dibynnu ar yr adnoddau fyddai ar gael yn 2003/04-2005/6.

7. Yn nhermau deddfwriaeth, dan **Dewis 2 a 3** byddai'n rhaid diddymu CGLlaH(C) a bydd y swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy gyfrwng deddfwriaeth Gynulliadol dan Adran 28 y Government of Wales Act.

## Trafodaeth

8. Yng nghyd-destun **Dewis 1 Dim newid strwythurol,** nid oes un o'r meini prawf sy'n barnu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd corff strategol ac ymgynghorol wedi eu cyrraedd. Mae pob un o'r sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhy fach i gyflawni eu gorchwylion, neu yn achos archifau, nid ydynt yn bod. Pe byddai'r dewis hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai'n hanfodol cael mwy o gydweithrediad a chyfathrebu rhwng y meysydd, Resource a Llywodraeth Cynulliad Cymru.
9. Dan **Dewis 2, Resource i Gymru wedi ei leoli o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Dewis 3 Resource i Gymru o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â Chyngor Ymgynghorol**, byddai gan Gymru y gallu i osod yr agenda a'r cyfeiriad strategol ac i lunio polisi. Byddai'n ymateb i faterion Cymreig ac yn gweithio drostynt, gan ymateb i broblemau lleol tra'n darparu'r gallu i weithredu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai hefyd yn medru gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd Resource; a byddai'r berthynas â Resource yn cael ei diffinio trwy gyfrwng cytundeb blynyddol.
10. O safbwynt **Dewis 2 a 3,** byddai lleoli'r gwaith o fewn Llywodraeth y Cynulliad yn economaidd, a gallai sicrhau y byddai gan y Gweinidog Diwylliant fynediad uniongyrchol i'r cyngor ar bolisi sydd ei angen arni. Dan **Dewis 3,** byddai Cyngor Ymgynghorol dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Diwylliant yn rhoi i'r sector y gallu i gyfrannu'n ffurfiol i'r broses o greu polisi, a thrafod yr angen am waith adfocatiaeth, fel y cyfeiriwyd ym Mharagraff 4.5.

5.11 Nid yw'r syniad o sefydlu Resource i Gymru ar ffurf Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylid sefydlu neu gynnal Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn unig pryd y gellir dangos mai dyna'r modd mwyaf addas a chost-effeithiol o gyflawni'r dyletswyddau angenrheidiol. Y prif ystyriaethau yw atebolrwydd cyhoeddus, defnydd da o arian, a'r angen am sicrhau y bydd cyrff o'r fath yn trafod eu busnes yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion Llywodraeth y Cynulliad, a'r weledigaeth ar gyfer Cymru.

5.12 Mewn termau cost, byddai'n rhaid i Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad gael adnoddau ychwanegol i dalu costau cael Prif Weithredwr a staff ategol. Byddai costau ychwanegol am Gadeirydd ac aelodau i'r Bwrdd, ac am uned noddol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. At hynny, gan mai corff cymharol fychan fyddai'r Corff Cyhoeddus a Noddir

gan y Cynulliad, ni fyddid yn ennill yr arbedion maint fyddai'n deillio pe byddai'n rhan o gorff mwy ac fel rhan o'r Cynulliad; fel corff bychan, byddai'r cynnydd yn yr adnoddau ychwanegol y byddai'n rhaid eu cael i gynnal dwy ochr y berthynas noddol yn gynnydd mawr fel cyfran o'r cyfanswm. O reidrwydd, byddai'n rhaid dod o hyd i'r costau gorbenion uwch hyn o adnoddau y byddid fel arall yn eu neilltuo i gynnal cyrff diwylliannol a phrojectau yn uniongyrchol. Yn ogystal, dan drefn Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, byddai'r cyswllt â'r Gweinidog Diwylliant yn llai uniongyrchol; a byddai'r manteision o integreiddio gydag amcanion, polisïau a gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu lleihau.

**Cwestiwn 3: Oes gennych unrhyw sylwadau ar fanteision ac anfanteision unrhyw un o'r dewisiadau?**

**Cwestiwn 4: Pa rai o'r dewisiadau sy'n werth eu hystyried ymhellach wrth wneud penderfyniad terfynol am strwythur strategol ac ymgynghorol i Gymru?**

**Cwestiwn 5: A oes yn eich barn chwi, unrhyw ddewisiadau eraill y dylid eu hystyried? Os oes, darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

## 6. *Ymgynghoriad*

1. Mae'r ddogfen drafod hon yn cael ei chylchredeg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rhai hynny sydd yn ymddiddori mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru.

   Dylid anfon ymateb erbyn **28 Mehefin 2002** fan bellaf i:

   Jane Edmonds

   Adran Ddiwylliant a'r Iaith Gymraeg

   Llywodraeth Cynulliad Cymru

   Parc Cathays

   CAERDYDD

   CF10 3NQ

   Neu e-bost:jane.edmonds@wales.gsi.gov.uk

Gellir cael copïau ychwanegol (gan gynnwys rhai mewn fformatau eraill) oddi wrth Penny Hall, Adran Ddiwylliant a'r Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu ffôn 029 2082 5440, neu drwy e-bost penny.hall@wales.gsi.gov.uk. Gellircael mynediad I'r ddogfen drwy gyfrwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru www.cymru.gov.uk yn ogystal.

2. Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion ddaw i law yn cael eu cyhoeddi, oni bydd y sawl sy'n ymateb yn dymuno i'w ymateb fod yn un cyfrinachol. Gallai ymateb o'r fath gael ei gynnwys mewn crynodeb o ymatebion, oni fydd ei gynnwys yn gallu arwain at adnabod yr ymatebydd.

Atodiad 1

**AELODAU O GRWP YMGYNGHOROL Y GWEINIDOG DIWYLLIANT AR RESOURCE**

Russell Thomas (Cadeirydd) Llywodraeth Cynulliad Cymru

Jane Edmonds Llywodraeth Cynulliad Cymru

Hywel Roberts Ymgynghorwr

Linda Tomos Cadeirydd, Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a

Hysbysrwydd (Cymru)

Jane Peirson Jones Cyfarwyddwr, Cyngor Amgueddfeydd

Cymru

(John Marjoram Cyfarwyddwr Gweithredol yn absenoldeb

Y Cyfarwyddwr)

Susan Edwards Cadeirydd Cyngor Archifau Cymru

Andrew Green Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Anna Southall Cyfarwyddwr, Amgueddfeydd ac Orielau

Cenedlaethol Cymru

Chris Llewelyn Cynrychiolydd CLlLC

Alan Watkin Cynrychiolydd Cymru ar Fwrdd Resource

Atodiad 2

**RHESTR O FYRFODDAU**

AOCC Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

CAC Cyngor Amgueddfeydd Cymru

CGLlGC Consortium Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru

(CWLIS)

CGLlaH(C) Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Hysbysrwydd (Cymru)

CLlLC Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

DCMS Department for Culture, Media and Sport

DG Y Deyrnas Gyfunol

TGaCh Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Atodiad 3

**CRYNODEB O’R CWESTIYNAU**

Cwestiwn 1: Ydych chi’n cytuno mai â’r meini prawf a restrwyd ym Mharagraff 4.4 y dylid barnu unrhyw drefniadau?

Cwestiwn 2: Ydych chi’n credu y byddai meysydd amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn cael eu gwasanaethu’n well gan un corff strategol ac ymgynghorol?

Cwestiwn 3: Oes gennych unrhyw sylwadau ar fanteision ac anfanteision unrhyw un o’r dewisiadau?

Cwestiwn 4: Pa rai o’r dewisiadau sy’n werth eu hystyried ymhellach wrth wneud penderfyniad terfynol am strwythur strategol ac ymgynghorol i Gymru?

Cwestiwn 5: A oes yn ei barn chwi, unrhyw ddewisiadau eraill y dylid eu hystyried? Os oes, darparwch fanylion os gwelwch yn dda.